Claire Bennett

Clerc y Pwyllgor Archwilio

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CAERDYDD CF99 1NA

17 Chwefror 2003

## ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO AR 'ADNEWYDDU A GWAREDU EIDDO A DDELIR GAN Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL YNG NGHYMRU'

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Ionawr 2003 yn gofyn am gyngor ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio yn ei adroddiad *adnewyddu a gwaredu eiddo a ddelir gan y GIG yng Nghymru*.

Yn ei adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor naw argymhelliad, sydd wedi cael eu derbyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymateb yn bositif i bob un o'r argymhellion ac mae wedi amlinellu nifer o gamau y mae GIG Cymru ac Adran GIG Cymru yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd. Ar y cyfan, mae'r ymatebion i argymhellion y Pwyllgor yn ddigon adeiladol i fodloni pryderon y Pwyllgor ac mae'r cynnydd a wnaed wrth eu rhoi ar waith yn galonogol.

Yn amodol ar safbwyntiau'r Pwyllgor, nid oes angen felly i'r Pwyllgor gymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. Mae Mrs Lloyd, Cyfarwyddwr Adran GIG Cymru yn mynd ati i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2003 yn rhoi gwybod iddynt am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cael gwared ar yr eiddo gweddillol; a hefyd, nodyn ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gwireddu'r enillion ychwanegol trwy gael gwared ar eiddo anaddas a segur, sy'n cael ei amcangyfrif yn £30 miliwn. Yn y cyfamser, bydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn parhau i fonitro'r camau y mae GIG Cymru yn eu cymryd mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor. Byddwn yn tynnu sylw'r Pwyllgor at unrhyw feysydd y mae angen i'r Pwyllgor eu harchwilio ymhellach yn ein barn ni.

Rwy'n mawr obeithio y bydd yr ateb hwn o fudd i chi.

**Helen Kirkby**
**Ysgrifenyddes Bersonol i Archwilydd Cyffredinol Cymru**